

Adroddiad ynghylch Ymchwiliad i'r  
Achos o Lifogydd  
ar 13 Hydref 2018  
Ochr y Gamlas, Aberdulais



Neath Port Talbot  
Castell-nedd Port Talbot  
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Gwasanaethau Priffyrdd a Draenio  
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Y Ceiau  
Heol Brunel  
Llansawel  
Castell-nedd  
SA11 2GG

## Amserlen Adolygu

---

Fersiwn	Paratowyd gan	Adolygwyd gan	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
2.0	Richard Colman (Swyddog Draenio)	Steve Owen (Swyddog Priffyrdd a Draenio)	Michael Roberts (Pennaeth Gofal Strydoedd)	24/07/2019

# Cynnwys

---

<u>Amserlen Adolygu</u>	1
<u>Cynnwys</u>	2
1. <u>Cyflwyniad</u> 3	
2. <u>Yr Achos o Lifogydd</u>	4
2.1. <u>Lleoliad y Llifogydd</u>	4
2.2. <u>Y Glawiad a'r Dadansoddiad o'r Glawiad</u>	4
2.3. <u>Ehangder y Llifogydd</u>	9
2.4. <u>Nodweddion y Safle</u>	9
2.5. <u>Rhwydweithiau a Llwybrau Draenio</u>	10
2.6. <u>Canfyddiadau Manwl yr Ymchwiliad</u>	10
2.7. <u>Crynodeb o Ganfyddiadau'r Ymchwiliad</u>	11
3. <u>Camau Gweithredu Argymelledig</u>	12
4. <u>Atodiadau</u>	13
4.1. <u>Atodiad A - Dyletswydd i Ymchwilio</u>	13
4.2. <u>Atodiad B - Cyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg</u>	15

# 1. Cyflwyniad

---

Mae ymchwiliad wedi cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr Awdurdod) yn rhinwedd ei rôl fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol mewn ymateb i'r achos o lifogydd yn Ochr y Gamlas, Aberdulais, ar 13 Hydref 2018. Mae'r adroddiad yn grynodedb o'r ymchwiliad ac mae'n cynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i gyflawni'r cyfrifoldebau statudol sydd gan yr awdurdod o dan Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae gwybodaeth am y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i ymchwilio i Lifogydd ar gael yn Atodiad A.

Un o ofynion Adran 19 yw y dylai adroddiad ynghylch ymchwiliad nodi pa Awdurdodau Rheoli Risg sydd â swyddogaethau perthnasol o ran rheoli risgiau llifogydd. Mae Atodiad B yn cynnig crynodeb o rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Trwy gyfrwng yr ymchwiliad, pennwyd mai'r canlynol yw'r Awdurdodau Rheoli Llifogydd perthnasol ar gyfer y llifogydd a ddigwyddodd yn Ochr y Gamlas:

- CBSCPT yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
- Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Prif Afon
- DCWW yn rhinwedd ei rôl fel Ymgymwrwr Carthffosiaeth


Fe wnaeth y llifogydd yn Ochr y Gamlas ddigwydd rhwng 09:00 o'r gloch ac 16:00 o gloch ar ddydd Sadwrn 13 Hydref 2018 yn dilyn cyfnod o lawiad sylweddol a gychwynnodd ddydd Iau 11 Hydref am oddeutu 09:00 o'r gloch ac a ddaeth i ben ddydd Sul 11 Hydref am oddeutu 12:00 o'r gloch.

Fe wnaeth CPSCPT weithredu camau brys i helpu i leihau risg y llifogydd ar ddiwrnod yr achos, ond oherwydd natur y llifogydd, ni fydd CBSCPT yn gweithredu unrhyw gamau ychwanegol yn dilyn yr adroddiad hwn.

## 2. Yr Achos o Lifogydd

### 2.1. Lleoliad y Llifogydd

Lleolir Ochr y Gamlas yn ward etholiadol Aberdulais, sydd wedi'i leoli ym mhen draw Cwm Crynant ble mae'n cwrdd â Chwm Nedd. Lleolir yr eiddo sydd wedi'u heffeithio ochr yn ochr â Chamlas Castell-nedd ac yn agos at gydlifiad Afon Nedd ac Afon Dulais, yng nghanol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliad y safle.



Ffigur 1 – Cynllun o leoliad Ochr y Gamlas.

### 2.2. Y Glawiad a'r Dadansoddiad o'r Glawiad

Rhwng dydd Iau 11 a dydd Sul 14 Hydref, cafwyd glawiad di-dor ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac fe wnaeth hynny bara oddeutu 78 awr ac roedd dwyster y glawiad ar ei waethaf yn hwyr ar y bore Gwener. Saif Ochr y Gamlas yn nalgylch Afon Nedd, a brofodd y lefelau uchaf o lawiad dros y 4 diwrnod. Mae arwynebedd dalgylch Afon Nedd yn oddeutu 31,652ha ac mae'n cwmpasu rhannau o Fannau Brycheiniog a gaiff eu draenio gan nifer o gyrsgiau dŵr cydnabyddedig ar eu llethrau deheuol cyn uno ag Afon Nedd ger Pontneddfechan.

Caiff Afon Nedd ei thrafod ym mhob rhan o'r adroddiad hwn fel un o'r prif gyfranwyr at y llifogydd. Mae Ffigur 2 isod yn dangos y dalgyrch ac mae lleoliad Ochr y Gamlas wedi cael ei labelu.



**Ffigur 2 – cynllun dalgyrch afonol a glawog Afon Nedd.**


Mae Ffigur 3 yn dangos lefelau'r glawiad a ddisgynnodd yn ardal CBSCPT yn ystod y storm, ac mae'n dangos sut y datblygodd a sut yr enciliodd dros y 6 diwrnod. Mae'n dangos yn arwyddocaol pa mor uchel oedd lefelau cyfartalog y glawiad, yn enwedig yn ystod y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn.

Gellir nodi bod y glaw wedi cychwyn dwysáu yn raddol ar y dydd Iau ac fe wnaeth parhau tan y dydd Sul, ac roedd y glawiad ar ei drymaf ar y dydd Gwener, ac roedd y glawiad cyfartalog uchaf dros gyfnod o 24 awr a fesurwyd yn 142mm mewn llecyn o Goedwig Rheola, sy'n rhan o ddalgyrch Afon Nedd. Cyfrifwyd bod glawiad cyfartalog o 118mm wedi disgyn o fewn terfyn y sir dros gyfnod o 72 awr yn ystod diwrnodau'r storm, ac fe wnaeth cyfartaledd o 142mm ddisgyn yn nalgylch Afon Nedd yn ystod yr un cyfnod 72 awr.

## DYDD MERCHER

## DYDD IAU

## DYDD GWENER



## DYDD SADWRN


## DYDD SUL

## DYDD LLUN

Ffigur 3 – Glawiad cyfartalog dyddiol, dydd Mercher 10 – dydd Llun 15 Hydref 2018, Metdesk 2018.


Yn ôl cofnodion gorsaf mesur Afon Nedd yn Resolfen (6 milltir i fyny'r afon o Ochr y Gamlas) fe wnaeth lefel yr afon gyrraedd uchafbwynt ddwywaith yn ystod y storm, ac roedd lefelau'r afon yn uchel iawn. Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos cyfanswm y glawiad, ac roedd lefelau'r afon yn agos at y lefelau uchaf a gofnodwyd erioed. Mae hydrograff y glawiad a chofnodion ynghylch lefel yr afon yn dangos sut gwnaeth lefelau'r afon ymateb, â chyfnod oedi o tua 3-4 ar y ddwy adeg. Fe wnaeth y glaw gyrraedd uchafbwynt rhwng 09:00 a 10:00 ar ddydd Gwener 12 Hydref, ac fe wnaeth lefelau'r afon gyrraedd uchafbwynt 4 awr yn ddiweddarach, am 14:00. Fe wnaeth y glawiad gyrraedd uchafbwynt unwaith yn rhagor rhwng 01:00 a 02:00 ar y bore Sadwrn, ac fe wnaeth lefelau'r afon gyrraedd y pwynt uchaf, sef oddeutu 2.9m, am 17:00, ychydig oriau cyn i'r llifogydd ddigwydd yn Ochr y Gamlas.

Yn ystod y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn, fe wnaeth yr Awdurdod ymateb i lawer o alwadau ynghylch y llifogydd, a chafwyd ymateb gan staff a oedd yn gweithio yn ystod y dydd a staff a oedd yn gweithio y tu allan i oriau swyddfa i ymateb i achosion brys. Fodd bynnag, am oddeutu 09:00 ar y dydd Sadwrn, aeth dŵr llifogydd i mewn i sawl eiddo yn Ochr y Gamlas.






Ffigur 4 – Hydrograff Glawiad yn Resolfen, Shoothill GaugeMap 2018.



Ffigur 5 – Cofnodion Lefel yr Afon yn Resolfen

### 2.3. Ehangder y Llifogydd

Fe wnaeth llifogydd mewnol ddigwydd mewn sawl eiddo ar 13 Hydref yn Ochr y Gamlas. Mae Ffigur 6 yn dangos lleoliad cyffredinol yr holl eiddo a gafodd eu heffeithio.



**Ffigur 6 - Lleoliad yr Eiddo a gafodd eu heffeithio gan yr achos o lifogydd ar 13 Hydref 2018.**

### 2.4. Nodweddion y Safle

Lleolir yr eiddo yn Ochr y Gamlas sydd ochr yn ochr â Chamlas Castell-nedd mewn llain o dir isel sydd wedi'i leoli rhwng yr A465 i'r gogledd a'r gorllewin, Afon Nedd i'r dwyrain ac arglawdd Rheilffordd Mwynau Castell-nedd i'r de. Mae'r llecyn hwn yn is na'r holl dir sydd o'i amgylch, a cheir gwahaniaeth o 2.88m rhwng yr eiddo a gafodd y llifogydd a lefel yr afon a gofnodwyd ar ddiwrnod y digwyddiad.

Mae'r ardal yn orlifdir nodweddiadol sydd â phriddoedd gorlifdir lomaidd a chleig, â lefel treiddiad dŵr naturiol o uchel oherwydd mae'n agos ar yr afon. Mae'r ddaear yn dywodfaen carbonifferaidd yn bennaf wedi'i orchuddio â dyddodion arwynebol o glai, silt, tywod a gro llifwaddod sydd wedi cael eu dyddodi o'r cyfnod Cwaternaidd hyd at y cyfnod presennol. Mae hyn yn golygu bod yr ardal gyfan yn cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan lefelau dŵr Afon Nedd ac mae'n ddylanwad allweddol ar risg llifogydd yn yr ardal. Mae'n bwysig nodi hefyd mai Ochr y Gamlas yw pwynt pellaf dylanwad y llanw ar Afon Nedd oherwydd ceir cored ychydig i fyny'r afon o draphont ffordd B4434. Canfuwyd bod yr achos hwn o lifogydd wedi digwydd ar yr un adeg â gorllanw uchel ym Mae Abertawe ar 13 Hydref, a gyrhaeddodd uchafbwynt am 09:40 ac uchder o 9.2m, a byddai hynny wedi gwaethygu'r achos o lifogydd.

## 2.5. Rhwydweithiau a Llwybrau Draenio

Nid oes unrhyw rwydweithiau draenio dŵr cyhoeddus na phreifat yn Ochr y Gamlas, ac nid yw'r ffordd yn rhan o rwydwaith ffyrdd mabwysiedig yr Awdurdod ychwaith. Gwyddys bod dŵr glaw sy'n disgyn ar dai yn yr ardal yn draenio i mewn i rwydwaith carthffosydd cyfunol Dŵr Cymru, ac ni wyddys am unrhyw gyrsiau dŵr wedi'u sianelu yn yr ardal ychwaith. Canfuwyd bod y carthffosydd cyfunol wedi'u lleoli y tu ôl i'r eiddo, a'u bod yn draenio i mewn i'r brif garthffos sy'n rhedeg i gyfeiriad y de-orllewin ochr yn ochr â glan yr afon, fel y gwelir yn Ffigur 7.


## 2.6. Canfyddiadau Manwl yr Ymchwiliad

Ar 13 Hydref 2018, cafodd capasiti dŵr y bibell carthion cyfunol sy'n cludo dŵr o doeau a dŵr gwastraff budr o eiddo yn Ochr y Gamlas ei orlethu. Fe wnaeth hyn arwain at y dŵr yn gorlifo o'r siambrau archwilio a leolir yng ngerddi cefn yr eiddo, gan achosi i'r dŵr lifo i mewn i lawr gwaelod yr adeiladau hyn.

Mae nifer o broblemau â llifogydd wedi digwydd yn ystod blynyddoedd blaenorol yn Ochr y Gamlas oherwydd agosrwydd yr ardal at yr afon, ond nid yw'r Awdurdod yn gwybod a oes dŵr llifogydd wedi mynd iddynt o'r system carthffosiaeth ar unrhyw adeg.

Mae ymchwiliadau'r Awdurdod wedi pennu bod dŵr llifogydd rywsut neu'i gilydd wedi ymdreiddio i mewn i'r brif garthffos sy'n rhedeg yn agos at yr afon, naill ai trwy ddŵr daear yn ymdreiddio, pibellau gollwng agored neu siambrau archwilio. Fe wnaeth hyn achosi gorlifo o bibellau'r carthffosydd cyfagos sy'n gwasanaethu'r eiddo yn Ochr y Gamlas.

Bydd Dŵr Cymru, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel ymglymerwr carthffosiaeth, yn cynnal eu hymchwiliad eu hunain i'r achos o lifogydd, a byddant yn sicrhau bod llifogydd sy'n mynd i mewn i eiddo yn flaenoriaeth bennaf. Yn rhinwedd eu swyddogaeth fel un o'r Awdurdodau Rheoli Risg a pherchnogion y seilwaith y gwnaeth dŵr y llifogydd lifo trwyddo, byddant yn arwain unrhyw ymchwiliadau ychwanegol.



Ffigur 7 – Map yn dangos y rhwydwaith carthffosydd cyfunol yn Ochr y Gamlas

## 2.7. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Ymchwiliad

Mae ymchwiliad yr Awdurdod yn casglu bod yr eiddo ar hyd Ochr y Gamlas wedi cael eu heffeithio gan lifogydd oherwydd capasiti'r rhwydwaith carthffosydd yn cael ei orlethu o ganlyniad i lawiad trwm dros gyfnod sylweddol (72 awr) yr oedd ei ganolbwynt o amgylch dalgylch Afon Nedd. Fe wnaeth lefelau'r afon effeithio ar y seilwaith draenio sy'n gwasanaethu Ochr y Gamlas, ac fe wnaeth hynny arwain at orlifo yn y siambrau archwilio cyfunol preifat a llifogydd mewnol.

### 3. Camau Gweithredu Argymelledig

Mae'r camau gweithredu yn Nhabl 1 yn gamau gweithredu argymelledig i'w datblygu gan yr awdurdod rheoli risg perthnasol neu berchennog yr eiddo/tir.

Rhif	Gweithredir gan	Cam Gweithredu	Sut caiff ei gyflawni
1.	Dŵr Cymru (DCWW)	Cynnal Ymchwiliad o'r Llifogydd	<ul style="list-style-type: none"><li>Dylid cynnal ymchwiliad i'r rhwydwaith cyfunol yn Ochr y Gamlas a'r ardal gyfagos i bennu beth yw'r mecanweithiau a achosodd i eiddo gael eu heffeithio gan lifogydd.</li></ul>
2.	CBSCPT	Adolygu Ymatebion i Achosion o Llifogydd	<ul style="list-style-type: none"><li>Cynnal cyfarfod gyda Chynllunio Brys i adolygu gweithdrefnau ac argymell/gweithredu newidiadau i'r ymateb i ddigwyddiadau.</li></ul>

Tabl 1, Camau gweithredu argymelledig

Bydd cynnydd y camau gweithredu argymelledig y dylai'r awdurdodau rheoli risg ymgymryd â hwy yn cael ei fonitro gan CBSCPT yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol.

## 4. Atodiadau

### 4.1. Atodiad A - Dyletswydd i Ymchwilio

Mae Rheoliadau Risg Llifogydd 2009 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn nodi mai CBSCPT yw Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yr ardal. Mae hyn wedi pennu nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ynghylch rheoli risg llifogydd i'r Cyngor. Yn benodol, mae Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn pennu dyletswydd i CBSCPT i ymchwilio i achosion o lifogydd i'r graddau y bydd yn ystyried bod hynny'n ofynnol.

Mae 'Awdurdod Rheoli Risg' yn golygu:

#### **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr: Adran 19 – Awdurdodau lleol: ymchwiliadau**

(1) Ar ôl dod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, bydd yn rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i'r graddau y mae'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, ymchwilio —

(a) pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau perthnasol ynghylch rheoli risg llifogydd. a

(b) pha un ai a yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd, neu'n bwriadu arfer y swyddogaethau hynny.

(2) Pan fydd awdurdod yn cynnal ymchwiliad o dan isadran (1), bydd yn rhaid iddo —

(a) gyhoeddi canlyniadau ei ymchwiliad, a

(b) hysbysu unrhyw awdurdodau rheoli risg perthnasol.

*Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010), A.19, c.29, Llundain: HMSO*

- A. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC),
- B. Awdurdod llifogydd lleol arweiniol,
- C. Cyngor dosbarth mewn ardal ble na cheir awdurdod unedol,
- D. Bwrdd draenio mewnol,
- E. Cwmni dŵr, ac
- F. Awdurdod priffyrdd

Wrth ystyried a oes angen ymchwilio i achos o lifogydd yn ei ardal neu a yw'n briodol gwneud hynny, fe wnaiff CBSCPT adolygu difrifoldeb y digwyddiad ynghyd â sawl eiddo sydd wedi'u heffeithio a mynychder digwyddiadau o'r fath. Mae Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol y Cyngor yn amlinellu'r meini prawf y dylid eu defnyddio wrth Ystyried Adroddiad ynghylch Ymchwiliad i Lifogydd.

## 4.2. Atodiad B - Cyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg

Mae gan Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghastell-nedd Port Talbot gyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg llifogydd. Mae Tabl 2 isod yn nodi ffynonellau niferus o lifogydd a'r Awdurdod Rheoli Risg sydd â chyfrifoldeb a swyddogaethau rheoli risg yn ymwneud â ffynhonnell benodol o lifogydd.

Tabl 2, Cyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg

Ffynhonnell y Llifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awdurdod Rheoli Llifogydd Arweiniol	Cwmni Dŵr	Awdurdod Priffyrdd
Prif afon	✓			
Cwrs dŵr cyffredin		✓		
Dŵr wyneb		✓		
Dŵr Wyneb yn Tarddu o'r Briffordd Llifogydd				✓
Carthffosydd			✓	
Y Môr	✓			
Dŵr daear		✓		

Amlinellir isod y cyfrifoldebau cyffredinol hynny sydd gan Awdurdodau Rheoli Risg mewn perthynas â rheoli risg llifogydd.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am reoli risg llifogydd o brif afonydd a'r môr. Mae CBSCPT yn cydweithio'n agos â CNC, yn enwedig wrth reoli risg lifogydd o sawl ffynhonnell, ac mewn achosion o lifogydd mawr. Mae CNC hefyd yn darparu gwasanaeth rhybuddio am lifogydd ledled Cymru mewn ardaloedd ble ceir risg o lifogydd o afonydd neu'r môr.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn rhinwedd ei gyfrifoldeb fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Mae CBSCPT yn gyfrifol am reoli risg llifogydd sy'n gysylltiedig â chyrsgiau dŵr cyffredin, dŵr daear a dŵr wyneb. Mae CBSCPT wedi llunio Cynllun Rheoli Risg Llifogydd yn unol â gofynion Rheoliadau Risg Llifogydd 2009, ac mae'r cynllun yn disgrifio sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni'r swyddogaeth hon. Yn ogystal â hyn ac fel y dywedwyd eisoes, mae gan yr Awdurdod



Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol a gafodd ei llunio i gyflawni gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae gan yr Awdurdod nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn rhinwedd swyddogaeth Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yr ardal yn unol â gofynion y ddwy ddogfen ddeddfwriaethol hyn. Mae'r awdurdod yn gyfrifol hefyd am gydsynio gwaith ynghylch cyrsiau dŵr cyffredin a gorfodi'r gwaith o glirio unrhyw strwythur neu rwystr anghyfreithlon o fewn cyrsiau dŵr.

## [Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn rhinwedd ei gyfrifoldeb fel Awdurdod Priffyrdd](#)

Bydd yr awdurdod yn gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y seilwaith trawsgludo dŵr sy'n rhan o'r priffyrdd, yn cynnwys gwaith glanhau ceuffosydd a rhigolau. Bydd y gwaith hwn, ynghyd â chynnal archwiliadau gweledol o gyflwr asedau o'r fath, yn cael ei gynnal i leihau risg llifogydd ar rwydwaith y priffyrdd mabwysiedig a thir cyfagos.

## [Dŵr Cymru Welsh Water](#)

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn gyfrifol am gyflenwi dŵr yfed ac am sicrhau bod y dŵr gwastraff a gynhyrchir ledled Cymru yn cael ei gludo ymaith, ei drin a'i waredu'n briodol. Mae DCWW yn gyfrifol am unrhyw lifogydd a fydd yn deillio o orlwytho carthffosydd cyhoeddus neu'r prif bibellau dŵr.

## [Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru](#)

Mae Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd ledled De Cymru, yn cynnwys unrhyw asedau sy'n gysylltiedig â draenio a risg llifogydd.

## [Perchnogion Tir/Eiddo](#)

O dan gyfraith gwlad, mae gan berchnogion tir neu eiddo hawliau a chyfrifoldebau yn ymwneud ag unrhyw gwrs dŵr sy'n llifo trwy derfynau eu tir neu sydd ger y terfynau hynny. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i berchennog y tir wneud y canlynol:

- Trosglwyddo'r llif heb ei atal, ei lygru na'i ddargyfeirio mewn modd a fyddai'n effeithio ar hawliau pobl eraill.

- Derbyn bod llifogydd naturiol yn llifo trwy eu tir, hyd yn oed os caiff hynny ei achosi gan gapasiti annigonol i lawr yr afon, oherwydd nid oes unrhyw ddyletswydd o dan gyfraith gwlad i wella cwrs dŵr.
- Cynnal gwely a glannau'r cwrs dŵr (yn cynnwys coed a llwyni sy'n tyfu ar y glannau) a chlrío unrhyw weddillion, boed hynny yn naturiol neu beidio, yn cynnwys sbwriel a charcasau anifeiliaid, hyd yn oed os na fyddant yn tarddu o'u tir.
- Peidio peri unrhyw rwystrau a wnaiff atal pysgod rhag symud yn ddirwystr.
- Sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau ar wely a glannau cwrs dŵr a allai achosi rhwystr naill ai ar y tir, neu trwy gael eu golchi ymaith gan lif uchel gan achosi rhwystr i strwythur ymhellach i lawr yr afon.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am amddiffyn eu heiddo rhag tryddiferiad trwy lannau naturiol neu rai wedi'u hadeiladu.
- Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau mewn unrhyw strwythur sy'n eiddo iddynt, megis ceuffosydd, sgriniau sbwriel, coredau ac ati.

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, bydd angen i berchennog tir gael caniatâd gan y Cyngor os bydd yn dymuno adeiladu ceuffos neu strwythur i reoli'r gwaith o liniaru llifogydd ar unrhyw gwrs dŵr cyffredin.